

# Yn onest ac yn eofn

*“Troes yntau, a dywedodd wrth Pedr, ‘Dos ymaith o’ m golwg, Satan’” (adn. 23)*

## Beth am ddarllen Mathew 16:21–28 ac yna myfyrio

Yn yr adran sydd o’n blaen ni heddiw, cawn enghraifft arall o allu Iesu i ddelio gyda realiti a’i wrthodiad i ganiatáu i’w ddisgyblion fyw gydag unrhyw gamargraff. Wrth i Iesu sôn am fynd i Jerwsalem, a dioddef llawer o bethau dan law yr henuriaid, yr archoffeiriaid, ac athrawon y Gyfraith, mae Pedr am geisio ei berswadio i osgoi’r perygl. A dweud y gwir, roedd Pedr a’r disgyblion eraill yn treulio eu hamser yn breuddwydio am ryw awdurdod dychmygol, ar waetha’r ffaith fod Iesu wedi gwneud yn glir beth oedd gwir gymeriad ei deyrnas ef. A yw’r Arglwydd, i bwrpas rhwyddineb, yn caniatáu i feddyliau ei ddisgyblion gael eu rheoli gan y fath freuddwydion? Dim o gwbl! Mae’n troi at Pedr ac yn dweud, “Dos yn fy ôl i Satan. Maen tramgwydd wyt i mi, oherwydd nid yw pethau Duw yn dy feddwl, ond pethau dynion.” Geiriau cryf.

Mae un esboniwr yn awgrymu fod yr ymadrodd, “Troes yntau” yn arwyddo fod Iesu wedi gwelwi wrth ystyried fod un o’i ddisgyblion yn ceisio ei berswadio i beidio dilyn y llwybr y daeth i’r ddaear i’w gerdded. Efallai fod yr esboniwr yn mynd ymhellach na’r testun, ond mae’n amlwg fod sylwadau Pedr wedi cael effaith fawr ar yr Arglwydd, a hyn yn ei dro yn arwain at ymateb rhyfeddol. Mae Iesu yn hollol onest ac yn eofn. Felly, oherwydd ei fod wedi dweud, “Pe na byddai felly” mewn perthynas â bodolaeth y nefoedd, gallwn fod yn sicr ei fod o ddfrif yn yr hyn yr oedd yn ei ddweud a gallwn ei gymryd ar ei air. Mi fyddai wedi dweud wrthym, mae hynny yn sicr.

## Beth am fynd ymlaen i ddarllen:

Ioan 3:1–11; 5:19–25; 6:26–47; 8:34–56

## Meddylwch am y cwestiynau hyn:

1. Beth yw’r cymal y mae Iesu yn ei ddefnyddio yn fynych fel rhagarweiniad i’w sylwadau?
2. Beth yw ei arwyddocâd?

## Gweddi

Arglwydd Iesu, mae’n gysur mawr i mi i wybod wrth ddelio hefo ti fy mod i’n delio hefo un na fyddai byth yn cuddio’r gwir oddi wrthyf, a hynny er mwyn arbed fy nheimladau. Rwyf yn onest, rwyf ti’n eofn wrth gysuro fy enaid. Diolch i ti, fy Ngwardwr. Amen.